YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2025 – Adran y Môr – Dosbarth y Gragen

## Bywyd braf yw bywyd plentyn

## Y Dyniaethau

Ymchwilio i amrywiol ffynonellau gwybodaeth er mwyn dysgu am agweddau o fywyd plentyn yn Oes Fictoria e.e. - teganau, bywyd ysgol, bwyd, dillad, gwaith.
Dysgu hanes Susan Rees , merch yn y pwll glo.
Cymharu bywyd plentyn heddiw â bywyd plentyn yn oes Fictoria.
Dysgu am seremonïau crefyddol yn ymwneud â babanod - seremoni enwi'r crefydd Siciaeth a seremoni fedyddio Gristnogol.

## Iechyd a Lles

Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd a datblygu ein sgiliau gymnasteg.
Mwynhau profiadau newydd yn yr awyr agored yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig.
Trafod rheolau'r ysgol a thrafod sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol.
Deall ein hawliau a'n cyfrifoldebau er mwyn medru parchu hawliau eraill.
Trafod ein teimladau a sut y dylid trin eraill a deal beth yw cydberthnasau iach.

**Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw meithrin ymwybyddiaeth o effaith ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ar ein hunain ac ar eraill a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu anghenion a hawliau ein gilydd. Anelwn at ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar sy'n medru meddwl yn feirniadol. Bwriadwn ymchwilio a gwerthuso tystiolaeth a ffynonellau gwybodaeth er mwyn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau ym mywyd plant heddiw a'r gorffennol. Gobeithiwn ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau pobl o fewn cyd-destunau lleol er mwyn datblygu dysgwyr gwybodus sy'n medru cyfathrebu'n hyderus a dangos empathi tuag at eraill. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi eu hawliau ac wedi datblygu corff o wybodaeth wrth ymchwilio i'w hunaniaeth ac i hanes Cymru.**

## Celfyddydau Mynegiannol

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.
Mwynhau creu perfformiad ar gyfer dathliadau'r Nadolig.
Datblygu ein sgiliau darlunio a datblygu'r sgil o ddarlunio portreadau.

## Ymweliadau

Ymweld ag Amgueddfa Abertawe ar gyfer gweithdy bywyd plentyn yn oes Fictoria.
Ymweld ag oriel y Gynn Vvian ar gyfer gweithdy creu portreadau.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Archwilio a mynegi priodweddau sylfaenol golau a thrydan.
Deall mai absenoldeb goleuni yw tywyllwch.
Gofyn cwestiynau ac awgrymu dulliau ymholi syml.
Mwynhau rhagfynegi canlyniadau a chynnal ymchwiliadau syml.
Mwynhau'r profiad o greu cylchedau trydan a deall peryglon trydan.
Deall cylch bywyd bodau dynol.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Creu cornel chwarae e.e. Siop Deganau a mwynhau chwarae rôl.
Datblygu ein sgiliau llafar drwy amryw o weithgareddau.
Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol a ffuglen.
Mwynhau gwylio rhaglenni teledu megis 'Amser Maith Maith yn ôl.'
Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
Mwynhau ysgrifennu mewn amryw o ddulliau, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth, portread, a dyddiadur.
Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy fwydlen Gwaith Cartref ar wefan y Dosbarth.
Bwydlen Gwaith Cartref y Gragen
.

## Mathemateg a Rhifedd

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf. Deall gwerth lle.
Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi.
Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur hyd, amser ac astudio siâp.
Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.
Casglu data a'i gyflwyno.

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor yr Hydref 2025 – Adran y Môr – Dosbarth y Gragen

## Bant â ni i gynllunio!


**Ein Cywaith Cloi**

Gobeithiwn gynnal diwrnod lle byddwn yn gwisgo fel plant o Oes Fictoria a chyflwyno gwybodaeth neu ffilmiau i'n gilydd am fywyd plant amser maith yn ôl.

Edrych ar deganau gwahanol? Argyle

Beth yw hawliau plant? Eira

Pa hawliau sydd yn bwysig i fi? Theo




Dysgu am deganau. Ebba

Beth yw ffrind da? Maisie

Rydw i eisiau mynd i amgueddfa. Cillian

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk